Anghofiwch eich cweryla
Dewch dan y faner goch
Anghofiwch lais eich calon
A'r creithie ar eich boch
Mae 'na fyd heb feistr
Daw meistr newydd glan
Cewch forthwyl a chewch gryman
Addewid yw fy nghan.

Cewch swllt I brynu bara
A chysgod dan y to
Mae'r nef yn addo manna
Dawr gwres o gludo'r glo
Mae'r dur yn y dyfodol
Mae afon haearn aur
Yn llifo o'r gorffennol
Dyfodol yn y lloer.

Mae'r arglwydd yn ein caru
Mae'n addo bywyd gwell
Mewn Sul mae seilio gobaith
Dyw'r diwedd ddim yn bell
Ffyddlondeb rwyf yn ceisio
Rhowch ysgwydd wrth yr 'ôl
Bydd diwedd ar eich gofid
Dyw crefydd fyth yn ffôl

Ni sy'n gweithio'r glo, yr haearn a'r dur
Rhai'n marw'n ifanc byth yn byw yn hir.